

UNED : YR ANIFAIL SY’N TYFU – RHEOLI GLASWELLTIR

CYFLWYNIAD

Mae porfa â’r potensial i fod y porthiant rhataf sydd ar gael – ffactor allweddol mewn systemau gwartheg stôr lle mae cadw costau i lawr yn un o’r ffactorau pwysicaf er mwyn gwneud elw ac yn brif ystyriaeth wrth besgi gwartheg - gan fod costau’n parhau i godi. Mae argaeledd ac ansawdd porfa yn medru amrywio’n eang, ac mae rheoli da yn hanfodol i fanteisio’n llawn ar ei photensial, yn enwedig os yw’r borfa’n mynd i fod yn rhan arwyddocaol o ddeiet yr anifail pesgi.

POTENSIAL GLASWELLT

Gall porfa’n hawdd gwrdd ag anghenion maethol gwartheg stôr sy’n tyfu hyd at 0.75kg / dydd. Ond, drwy reoli’r pori’n dda mewn glaswelltir sydd wedi ei ail-hadu a’i gynnal a’i gadw’n dda, mae cael cynnydd pwysau o dros 1kg / dydd, a digon o gynnydd mewn cyflwr corfforol i besgi’r anifeiliaid heb orfod defnyddio atchwanegion i’r deiet, yn dargedau realistig.

Dim ond yn y rhannau o’r wlad sydd â thywydd mwyn, ynghyd â rheolaeth ofalus yn ystod y cyfnod ddiwedd yr haf hyd fisoedd y gwanwyn, y gall porfa ynddo’i hun fod yn ddigonol i wartheg stôr hyd yn oed. Ond wrth gyfuno’r pori gyda system silwair neu wair effeithiol, gellir diwallu anghenion y gwartheg sy’n tyfu a phesgi drwy’r flwyddyn. Fodd bynnag, rhaid cadw llygad ar y costau, yn enwedig wrth wneud silwair, ac ystyried porthiant a phorfwydydd amgen, lle mae’n addas.

Targed Cynnydd Pwysau Byw ar Borfa

Brid / Math	Rhyw	Yn eu tymor cyntaf (kg/dydd)	Yn eu hail dymor (kg/dydd)
Lloi sugno	Heffrod	0.95	0.85
	Eidion	1.10	0.90
Lloi buches odro	Heffrod	0.75	0.85
	Eidion	0.85	0.90

MATHAU O DIROEDD PORI

Glaswelltau – i gael y lefelau uchaf cynnyrch porfa a pherfformiad anifail da, dylai tiroedd pori rhygwellt sy'n cael eu cynnal â phori tynn yn yr haf a'i ail-hadu fel bo'r angen, fod yn sylfaen i ddeiet yr anifail.

Codlysiau - mae gan feillion gwyn rôl bwysig i chwarae mewn systemau tyfu a phesgi gwartheg. Mae'n cyflenwi'r deiet ansawdd uwch sydd ei angen, a'r nitrogen fydd yn rhoi hwb i gynnyrch y borfa a gwneud arbedion ar filiau gwrtaith.

	Rhygwellt parhaol	Meillion gwyn	Glaswelltau 'chwyn'
Gwerth T (Treuliadwyedd) %	65-75	75-82	60-70
Protein amrwd %	15-20	25-30	10-15
Cymeriant cymharol	100	130	80

CYNNAL A CHADW A GWELLA TIROEDD PORI

Mae gan diroedd pori gwartheg pesgi angen gofal mawr a rheolaeth dda, yn enwedig os ydyn nhw'n mynd i barhau'n gynhyrchiol. Mae cael y cymeriant a'r perfformiad anifail gorau o borfa, yn aml iawn yn golygu bod y borfa'n cael ei dan-bori yn yr haf, am fod y ffermwyr wedi bod yn wylidwrus iawn o golli tyfiant drwy wneud i'r anifeiliaid bori'n galetach.

Ail-hadu – rhoi cyfle i

- Elwa ar briodolddau amrywiadau wedi eu gwella
- Wella ansawdd a blasusrwydd porfa
- Ddefnyddio llai o wrtaith drwy gyflwyno meillion

Gwella rheolaeth - gyda mwyafrif o laswelltir, gall talu sylw i

- Ddraeniad a chywasgiad pridd – yn enwedig ym misoedd yr hydref cyn lletya
- Ffrwythlondeb pridd
- Bwysedd, amllder a thymoroledd pori

chwarae prif ran mewn cynnal a chadw cynhyrchiant glaswelltir.

TAIL/DOM A GWRTAITH

Tail/dom – rhaid gwneud y defnydd gorau posibl o unrhyw dail/dom neu slyri a gynhrychir ar y daliad, a rhaid cadw at unrhyw ddeddfwriaeth a Chod Ymarfer Da er mwyn:

- Targeddu priddoedd a chaeau silwair neu wair sy'n brin o ffrwythlondeb
- Anelu i'w roi yn y gwanwyn er mwyn cael y 'cipiad' gorau o nitrogen
- Peidiwch â'i roi mewn meintiau allai leihau tyfiant a dwysedd y tir pori

Gwrtaith – rhaid ei ddefnyddio yn ôl yr angen i wneud yn iawn am unrhyw ddiffyg yn y pridd ac annog tyfiant ar adegau allweddol e.e. gwanwyn neu ddiwedd haf, a lle bynnag posibl, i ategu'r meillion e.e. dim gwrtaith nitrogen yn ystod diwedd y gwanwyn a misoedd yr haf pan ddylai'r meillion gyflenwi'r nitrogen.

PORI

Uchder Porfa - dyma'r canllaw mwyaf pwysig i berfformiad glaswelltir ac anifail, ac mae'n un o'r elfennau rheoli mwyaf heriol i nifer o ffermwyr, gan eu bod yn pryderu nad ydyn nhw'n darparu digon o borfa i'r anifeiliaid, a'r effaith gaiff hyn ar eu perfformiad. O ganlyniad, mae tiroedd pori gwartheg yn aml wedi eu tan-bori yn draddodiadol, ac wedi methu â chyrraedd eu potensial. Mae'n bwysig cwrdd â thargedau uchder porfa

- Uchder yn rhy isel
 - Cymeriant a pherfformiad yr anifail yn dioddef
- Uchder yn rhy uchel
 - Yn y cychwyn bydd yr anifeiliaid yn gwneud yn dda gan fod ganddyn nhw ddigon o borfa, ond bydd porfa sy'n cael ei wrthod, yn troi'n goesog yn fuan a bydd gwerth porthiant y borfa'n gostwng yn ddramatig

Targed uchderau llystyfiant (cm)

System Bori	Targed uchderau llystyfiant (cm)	
	Yn gynnar yn y tymor	Yn hwyr yn y tymor
Pori parhaus	6-8	8-10
Pori cylchdroadol	Lwfans (mynd i mewn)	Gweddill (gadael)
	15	6-8

SYSTEM BORI - er bod gwartheg eidion yn tueddu i bori'n barhaus am resymau ymarferol llafur a chynllun y fferm, gellir defnyddio system bori cylchdroadol rhywle rhwng 2 a 10

padog neu gae mewn cylchdro. Gyda dwysedd stocio uwch yn enwedig, gall pori cylchdroadol roi mwy o reolaeth a gadael i borfa dros ben gael ei thorri ar gyfer silwair neu borfa dogni pan mae'n brin.

- Pori parhaus – mae'n osgoi aflonyddu'r stoc ac mae'n hawdd a rhad ei drefnu a'i weithredu, ond rhai monitro uchder y borfa'n barhaus. Rhaid i'r system hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau y tu allan i'r amrediad yn y tabl uchod e.e. ardal 'byffer', y gellir ei thorri fel silwair neu ei phori yn unol â thyfiant y glaswellt. Mae diffyg hyblygrwydd yn arwain at wastraff a cholled ansawdd difrifol fel mae'r tymor yn mynd rhagddo.
- Pori cylchdroadol – mae'n cynnig mwy o reolaeth a hyblygrwydd, ond gall fod yn fwy costus i'w osod yn ei le (cyflenwad dŵr a ffensio) a llafur dwysach. Gall symud stoc o le i le fod yn llawer iawn fwy ymatebol i dyfiant porfa, ac arwain at well defnydd a gwell perfformiad.

Waeth beth ydi'r system a ddewisir, rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer tyfiant tymhorol y borfa, gan ehangu'r holl ardal bori fel mae'r tymor yn mynd rhagddo, i adlewyrchu bod y borfa'n tyfu'n arafach a bod cymeriant y gwartheg yn cynyddu wrth iddyn nhw dyfu.

Lefelau stocio tymhorol nodweddiadol ar gyfer glaswelltir sy'n cael ei reoli'n dda

Tymor	Pwysedd stocio (kg pwysau byw anifail yr hectar)	Nifer o eidion 400kg yr hectar (a thybio bod cyfraddau tyfiant yn 1kg / pen / dydd)
Yn gynnar (Mai/Mehefin)	2,200	5.5
Canol (Gorffennaf)	1,500	3.3
Diwedd (Awst/Medi)	1,000	2.0

RHEOLI PARASITIAID

Gall parasitiaid mewnol (llyngyr) fod yn broblem fawr mewn anifeiliaid sy'n tyfu a phesgi, a rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi a rheoli'r problemau. Rhaid defnyddio anthelmintigau

(cyffuriau) priodol - drenshis, bolysau, brechu neu arllwyso - yn ddoeth fel rhan o ddull cynlluniedig. Ond gall rheoli glaswelltir hefyd gyflenwi 'porfa lân' a mynd yn bell iawn tuag at ostwng cost cyffuriau a'r risg o ddatblygu ymwrthedd i barasitiaid. Rhaid defnyddio

- Ail-hadau newydd
- Caeau'n cael eu pori gan ddefaid neu eu torri ar gyfer silwair dim ond yn y 12 mis blaenorol
- Adladd silwair

mewn modd cynlluniedig ar gyfer y stoc sy'n dueddol i gael clefyd, er mwyn helpu i osgoi problemau a sicrhau'r rheolaeth orau.

GWAIR NEU SILWAIR

Gall silwair wneud cyfraniad sylweddol tuag at borthiant gaeaf neu fel 'porthiant byffer' ar adegau eraill. Rhaid gwneud y silwair o borfa a meillion o ansawdd uchel, a rhaid ei gadw'n dda, wedi ei storio mewn clamp neu wedi ei felio. Dyma'r materion allweddol :

- Cynaeafu'n gynnar cyn bod y glaswellt yn blodeuo - yn ymarferol rhaid cadw llygaid ar y cynnyrch gan fod porfa a meillion ifanc, deiliog o ansawdd uchel yn gallu bod yn gynnyrch isel, a rhaid gwneud digon o silwair i barhau drwy'r gaeaf. Rhaid i'r dyddiad torri adlewyrchu cyfraniad disgwylidig y silwair a pherfformiad stoc.
- Gwywo da am o leiaf 24 awr i ddileu elifion a gwella'r siawns o epleu da ynghyd â chael cymeriant da
- Clampio effeithlon / belio a selio – gellir ystyried ychwanegyn ar gyfer deunydd o ansawdd uchel os yw'n wlyb iawn (perygl o epleu gwael) neu'n sych iawn (perygl o golledion wrth borthi)
- Porthi gofalus i osgoi gwastraff

CASGLIAD

- Gall glaswelltir gwrdd ag anghenion maethol gwartheg pesgi a gwartheg stôr yn hawdd gyda rheolaeth dda iawn, gyda chynnydd pwysau o dros 1kg / dydd a digon o gynnydd mewn cyflwr corfforol i besgi'r anifeiliaid heb ychwanegion i'w diet.
- O ran cael y cynnyrch glaswellt uchaf a pherfformiad anifail da, dylai tiroedd pori rhygwellt sy'n cael eu cynnal a'u cadw drwy bori'n dynn yn yr haf a'u hail-hadu fel bo'r angen, fod yn sylfaen i ddeiet yr anifail. Bydd gan feillion ran fawr i chwarae yn y broses.

- Dylid defnyddio gwrrtaith yn unol â'r anghenion i wneud yn iawn am unrhyw ddiffygion ac annog tyfiant strategol e.e. gwanwyn neu ddiwedd haf, ond, lle bynnag posibl, yn ategu gyda meillion.
- Uchder porfa yw'r canllaw gorau i berfformiad glaswelltir ac anifeiliaid – yn draddodiadol, mae tir pori gwartheg wedi cael ei dan-bori a methu cyrraedd eu potensial
- Er bod mwyafrif gwartheg eidion yn cael eu pori'n barhaus am resymau ymarferol cynllun fferm a llafur, gall system gylchdroadol roi llawer mwy o reolaeth a gadael i borfa dros ben gael ei thorri yn silwair neu ei dogni pan yn brin.
- Gall parasitiaid (llyngyr) fod yn broblem fawr mewn anifeiliaid sy'n tyfu a phesgi, a rhaid gwneud pob ymdrech i osgoi a rheoli'r problemau. Rhaid defnyddio anthelmintigau (cyffuriau) priodol fel rhan o'r dull cynlluniedig, ond gall rheoli glaswelltir hefyd roi porfa 'lân' a mynd yn bell iawn at ostwng cost cyffuriau a'r risg o ddatblygu ymwrthedd i barasitiaid.
- Gall silwair wneud cyfraniad sylweddol at borthiant gaeaf neu fel 'porthiant byffer' ar adegau eraill. Rhaid gwneud y silwair o borfa a meillion o ansawdd uchel a rhaid ei gadw'n dda, wedi ei storio mewn clamp neu wedi ei felio.

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2006) Better Returns from Grazing Management – Beef Action for Profit 13

HCC (2008) Rheoli Glaswellt